# Dwyn: sut i benderfynu ar anonestrwydd



Andriy Popov / Alamy Stock Photo

Steve Pugsley

**Mewn achos llys am ddwyn, mae'n rhaid i'r rheithgor benderfynu a yw'r diffynnydd wedi ymddwyn yn anonest. Mae'r erthygl hon yn asesu'n feirniadol y cefndir cyfreithiol sy'n llywio proses mor bwysig o wneud penderfyniadau**

**FFOCWS AR YR ARHOLIAD**

Mae'r erthygl hon yn berthnasol i **CBAC Safon Uwch** Unedau 3 a 4.

Mae dwyn wedi'i ddiffinio yn a.1(1) **Deddf Dwyn 1968** fel hyn: 'Mae rhywun yn euog o ddwyn os yw'n adfeddu eiddo rhywun arall yn anonest, gyda'r bwriad o amddifadu'r llall ohono yn barhaol; a bydd "dwyn" a "lladrata" yn cael eu dehongli'n unol â hynny.'

Mae hyn yn cael ei rannu'n bum elfen:

- anonestrwydd (a.2)
- adfeddu (a.3)
- eiddo (a.4)
- yn perthyn i rywun arall (a.5)
- gyda'r bwriad o amddifadu'r llall ohono yn barhaol (a.6)

Mae Adrannau 2–6 yn ymdrin â phob un o'r elfennau hyn, ac mae adran 2 yn ymdrin ag 'anonestrwydd' hefyd. Y broblem yw, dydy a.2(1) y Ddeddf Dwyn ddim yn rhoi diffiniad o anonestrwydd, dim ond tair enghraifft o'r hyn na ddylai gael ei ddehongli fel anonestrwydd (eithriadau):

**a** os yw'n adfeddu'r eiddo gan gredu bod ganddo'r hawl cyfreithiol i amddifadu'r person arall ohono, ar ei ran ei hun neu ar ran trydydd person; neu

**b** os yw'n adfeddu'r eiddo gan gredu y byddai ganddo gydsyniad y person arall, pe bai hwnnw'n gwybod am yr adfeddu ac amgylchiadau'r adfeddu; neu

**c** os yw'n adfeddu'r eiddo gan gredu nad yw'n bosibl darganfod i bwy y mae'r eiddo'n perthyn drwy gymryd camau rhesymol.

Mae'n werth nodi, yn ychwanegol at hynny, bod a.2(2) yn ychwanegu'r pwynt y gall person sy'n adfeddu eiddo sy'n perthyn i rywun arall gael ei ystyried yn anonest, 'er ei fod yn barod i dalu am yr eiddo'.

## Achosion a.2(1) y Ddeddf Dwyn

Mae'n bosibl dangos yr enghraifft gyntaf gydag achos *Robinson* (1977). Nid oedd yn euog o ddwyn pan aeth ag arian a oedd yn ddyledus iddo a oedd wedi'i ollwng gan y dyn yr oedd yn ymosod arno, oherwydd ei fod yn credu'n onest fod ganddo hawl i wneud hyn. (Gallwch chi fynd i edrych ar grynodebau ychwanegol o'r achosion o bwys y sonnir amdanyn nhw yn yr erthygl hon.)

Rwy'n cyflwyno'r ail enghraifft i'm myfyrwyr fel 'amddiffyniad y brawd bach neu'r chwaer fach'. Mae llawer o'm myfyrwyr yn cael eu gwylltio gan frawd neu chwaer iau yn mynd i mewn i'w hystafelloedd ac yn adfeddu eu pethau, gan ddweud wedyn, 'ond do'n i ddim yn meddwl y byddai ots gen ti' pan fyddan nhw'n cael eu herio. Yn wir, mae rhai ohonyn nhw'n cyfaddef mai nhw yw'r brawd bach neu'r chwaer fach. Mae'n bosibl dangos eithriad i a.2(1)(b) gydag achosion fel *Holden* (1991) a *Small* (1988).

Mae fy myfyrwyr yn cael yr anhawster mwyaf wrth geisio mynd i'r afael â'r drydedd enghraifft. Rwy'n esbonio hon drwy ofyn iddyn nhw ddychmygu fy mod yn dod o hyd i bapur £10 y mae un ohonyn nhw wedi'i ollwng ar ôl i'r

myfyrwyr adael fy ystafell ddosbarth, ac rwy'n ei gadw. Byddai'r eithriad i a.2(1)(c) yn berthnasol petawn i'n gwneud hyn gan feddwl, petawn i'n mynd i ystafell gyffredin y chweched dosbarth a gofyn a oedd unrhyw un wedi gollwng y papur £10, na fyddwn i byth yn gallu dod o hyd i'r perchennog. Does dim gwahaniaeth fy mod i'n bod yn hurt ac y byddai ffyrdd callach o ddod o hyd i'r perchennog – yr hyn sy'n bwysig yw fy mod i'n credu'n onest na fyddwn i'n gallu dod o hyd i'r perchennog drwy gymryd camau rhesymol. Mae achos *Small* (1988) yn enghraifft ddefnyddiol yma eto. Yr hyn sy'n drysu fy myfyrwyr bob amser yw bod y lladrad yn digwydd yr eiliad y mae rhywun yn codi'r arian gyda bwriad anonest. Mae'r hyn sy'n digwydd wedyn yn amherthnasol gan fod hon yn elfen *mens rea*. Os yw'r person yn codi'r arian gyda bwriad anonest ond yn newid ei feddwl ychydig funudau'n ddiweddarach ac yn gwneud popeth posibl i ddod o hyd i'r perchennog, mae hynny'n rhy hwyr gan fod y drosedd wedi digwydd yn barod. Wrth gwrs, byddai'n amhosibl i'r heddlu brofi hyn oni bai bod y person yn ddigon twp i ddisgrifio ei broses meddwl i'r heddlu neu i'w bostio ar y cyfryngau cymdeithasol.

## *Ghosh*: prawf dwy ran

Os nad yw unrhyw un o'r eithriadau yn a.2(1) yn berthnasol, mae fy myfyrwyr yn aml yn dweud ar gam fod hynny'n golygu bod y person yn anonest. Dydy hyn ddim yn wir. Yn draddodiadol, roedd y llysoedd yn symud ymlaen i ystyried y prawf dwy ran a nodwyd yn *Ghosh* (1982):

1 Oedd yr hyn a wnaed yn anonest yn ôl safonau cyffredin pobl resymol a gonest?
2 Oedd y diffynnydd yn sylweddoli bod yr hyn yr oedd yn ei wneud yn anonest?

Roedd rhan gyntaf y prawf yn wrthrychol, a'r ail ran yn oddrychol yn bennaf. Mae'r cyfeiriad at safonau cyffredin yn y rhan gyntaf yn atal yr ail ran rhag bod yn gwbl oddrychol, neu fel arall gallai unrhyw un sydd â safbwyntiau comiwnyddol honni nad yw'n credu yng nghysyniad eiddo personol – er nad yw'n credu ei fod ef ei hun yn anonest, mae'n ymwybodol na fyddai'r gymdeithas yn credu'r un peth.

## Addasiad o *Ghosh* gan *Ivey*

Erbyn hyn, mae'r prawf hwn wedi'i ddisodli (addasu) yn dilyn y dyfarniad yn achos *Ivey* v *Genting Casinos* (2017). Achos sifil oedd hwn ac roedd yn ymwneud ag ystyr 'twyllo'. Er nad achos dwyn oedd hwn, bu'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys wrthi'n hir yn dadansoddi ystyr 'anonestrwydd'. Dywedodd Ivey ei fod yn credu bod defnyddio namau mân ar gefn cardiau i'w hadnabod ('*edge-sorting*') yn dechneg gyfreithlon, ac felly nad oedd yn anonest. Fodd bynnag, daeth y ddau lys i'r casgliad mai twyllo oedd hyn, a'i fod felly yn anonest.

Byddai popeth wedi bod yn iawn petai'r Goruchaf Lys, yn rhan o'i ddyfarniad, heb benderfynu dileu prawf *Ghosh* ar gyfer dwyn, gan ddweud na ddylid cael prawf gwahanol am anonestrwydd mewn cyfraith sifil a throsedd. Dywedodd hefyd fod ail ran prawf *Ghosh* yn achosi, yn anfwriadol, i'r sefyllfa hon godi: 'po fwyaf gwyrdroëdig yw safonau anonestrwydd y diffynnydd, lleiaf tebygol ydyw o gael ei ddedfrydu'n euog o ymddygiad anonest' (dyfarniad yr Arglwydd Hughes o achos *Ivey* v *Genting Casinos (UK) Ltd*, 2017).

Mae hyn yn enghraifft wych o **ymgyrchedd barnwrol**. Esboniodd y Goruchaf Lys yn eglur ei fod yn manteisio ar y cyfle i dacluso'r gyfraith. Y broblem yw bod hyn yn amlwg yn mynd yn groes i fwriad Senedd San Steffan wrth greu'r Ddeddf Dwyn. Mae'r tri eithriad i anonestrwydd yn a.2(1) a ddyfynnwyd yn gynharach yn pwysleisio'r geiriau 'gan gredu', gan ddangos yn hollol eglur mai bwriad Senedd San Steffan yw bod yn rhaid i'r cwestiwn a yw ymddygiad yn anonest gynnwys meini prawf goddrychol. Mae'n amlwg bod y Goruchaf Lys wedi gosod ei hun uwchben Senedd San Steffan ar y mater hwn a bod modd ei gyhuddo o ymgyrchedd barnwrol lle mae penderfyniadau barnwrol yn seiliedig ar fynegi gwerthoedd polisi penodol yn hytrach nag ar y gyfraith bresennol. Dyna un o nodweddion amlwg y Goruchaf Lys, yn enwedig pan oedd y Fonesig Hale yn ei arwain.




TELLINGPHOTO / Alamy Stock Photo

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

- Mae penderfynu ar elfen *mens rea* anonestrwydd yn elfen allweddol o drosedd dwyn.
- Dydy Deddf Dwyn 1968 ddim yn rhoi diffiniad o ddwyn ond yn a.2(1) mae'n rhoi tair sefyllfa lle gallai cred y diffynnydd awgrymu diffyg anonestrwydd.
- Am nad oes diffiniad, ac o gofio efallai nad yw eithriadau a.2(1) i anonestrwydd yn bendant, mae'r uwch lysoedd apêl wedi datblygu eu profion anonestrwydd eu hunain.
- Y prawf cyfredol yw'r un yn achos *Ivey* v *Genting Casinos* (2017), sy'n disodli prawf *Ghosh* (1982), fel y'i cadarnhawyd gan y Llys Apêl (yr Is-adran Trosedd) yn *R* v *Barton a Booth* (2020).
- Mae'r awdur yn dadlau bod penderfyniad y Goruchaf Lys yn achos *Ivey* yn enghraifft o ymgyrchedd barnwrol ac, am resymau technegol cynsail farnwrol, yn benderfyniad er perswâd yn hytrach nag yn un rhwymol ar farnwyr y Goruchaf Lys yn y dyfodol.

Gan mai rhywbeth byw yw'r gyfraith, mae'n hollol bosibl rhagweld sefyllfa lle mae'r gyfraith yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng dau safbwynt fel a ddigwyddodd yn achos *Cunningham* (1957) (byrbwylltra goddrychol) a *Caldwell* (1982) (byrbwylltra gwrthrychol).

Roedd rhiant un o'm myfyrwyr adeg dyfarniad *Ivey* yn fargyfreithiwr dros yr amddiffyniad ac roedd yn drist iawn gan ei fod yn dweud bod hyn wedi cau'r drws ar ei ddull mwyaf llwyddiannus o gael cleientiaid yn ddieuog. Ond tybed?

Roedd y Goruchaf Lys yn amlwg yn bwriadu i'r dyfarniad hwn fod yn **gynsail rwymol** ar gyfer achosion y dyfodol. Y ffaith amdani yw nad oedd y sylwadau ar brawf *Ghosh* yn rhan o'r *ratio decidendi* ar gyfer ei benderfyniad ar achos *Ivey*, gan fod hyn yn berthnasol i gyfraith sifil yn hytrach na chyfraith trosedd. Roedd y sylwadau hyn yn rhai *obiter dicta*. Felly, dim ond **cynsail er perswâd** oedden nhw.

Enghraifft debyg yw achos *R* v *Howe* (1987), pan wnaeth Tŷ'r Arglwyddi gynsail rwymol nad oedd gorfodaeth yn amddiffyniad ar gyfer llofruddio. Mewn sylwadau *obiter dicta*, dywedodd y barnwyr na ddylai fod yn amddiffyniad ar gyfer ymgais i lofruddio chwaith, ond parhaodd hyn i fod yn gynsail er perswâd hyd nes y daeth achos go iawn o ymgais i lofruddio (*R* v *Gotts*, 1992) gerbron Tŷ'r Arglwyddi, a oedd yn dilyn y gynsail er perswâd o achos *Howe*, ac a oedd felly wedi creu cynsail rwymol.

Roedd hyn yn golygu, petai achos dwyn ac anonestrwydd yn cyrraedd y Llys Apêl (Yr Is-adran Trosedd) yn y dyfodol, na fyddai angen i'r llys fod

## Blwch 1 Achosion dwyn ac anonestrwydd

### *R* v *Robinson* (1977)

Roedd Robinson wedi bygwth dyn yr oedd ar ei wraig £7 iddo. Buon nhw'n ymrafael a gollyngodd y dyn arall £5. Aeth Robinson â'r arian. Cafodd ei euogfarn am ddwyn ei dileu gan nad oedd gweithredoedd Robinson yn anonest os oedd yn credu'n ddiffuant bod ganddo hawl mewn cyfraith i'r arian. Rhaid i holl elfennau dwyn fod yn bresennol er mwyn i ladrad ddigwydd.

### *R* v *Holden* (1991)

Aeth Holden â theiars oddi wrth ei gyn-gyflogwr, gan gredu na fyddai gwahaniaeth ganddo. Cafodd ei euogfarn am ddwyn ei dileu. Wrth ystyried yr eithriadau i anonestrwydd o dan a.2(1) Deddf Dwyn (1968), yr hyn sy'n bwysig yw bod 'cred onest' yn bodoli. Dydy hi ddim yn berthnasol a yw'r gred yn rhesymol ai peidio.


Victor Kuznetsov / Alamy Stock Photo

### *R* v *Small* (1977)

Sylwodd Small ar gar ar ochr y ffordd gyda theiar fflat, batri fflat a dim petrol. Roedd y drysau wedi'u datgloi ac roedd yr allweddi tanio yn y clo. Ar ôl pythefnos, aeth â'r car, gan gredu iddo gael ei adael. Cafodd ei euogfarn ei dileu gan fod cred ddiffuant yn gallu bod yn gred onest, hyd yn oed os yw'n afresymol.

### *R* v *Ghosh* (1982)

Hawliodd Dr Ghosh arian am lawdriniaeth nad oedd wedi'i gwneud. Er iddo ddweud nad oedd hyn yn anonest gan fod ar yr ysbyty arian iddo am rywbeth arall, cafodd euogfarn am ddwyn. Sefydlodd yr achos hwn brawf *Ghosh* am anonestrwydd.

### *Ivey* v *Genting Casinos (UK) Ltd* (2017)

Enillodd Phil Ivey dros £7 miliwn yn chwarae cardiau ond gwrthododd y casino ei dalu gan ei fod wedi defnyddio namau mân ar gefn cardiau i'w hadnabod (sef y dechneg '*edge-sorting*'), a oedd yn twyllo, yn ôl y casino. Felly, gwrthodon nhw dalu ei enillion iddo. Aeth Ivey â Genting Casinos i'r llys ac aeth yr achos i fyny hierarchaeth y llys, gan gyrraedd y Goruchaf Lys yn y pen draw. Penderfynodd y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys fod Ivey wedi bod yn twyllo ac felly na ddylai ei enillion gael eu talu iddo. Dywedodd y Goruchaf Lys *obiter* y dylai rhan oddrychol prawf *Ghosh* gael ei dileu.

### *R* v *Barton a Booth* (2020)

Cododd Mr Barton (y perchennog) a Ms Booth (y rheolwr) lawer gormod ar breswylwyr eu cartref gofal moethus am wasanaethau, a derbyn rhoddion ariannol enfawr oddi wrthyn nhw. Cawson nhw euogfarn am nifer o droseddau, gan gynnwys dwyn a thwyll. Cadarnhaodd y Llys Apêl y dyfarniad yn achos *Ivey* gan ddweud mai'r prawf am anonestrwydd oedd:

1 Beth oedd union gyflwr gwybodaeth neu gred y diffynnydd o ran y ffeithiau?

2 Oedd ei ymddygiad yn anonest yn ôl safonau pobl weddus gyffredin?

wedi'i rwymo gan *Ivey* ac y gallai ailsefydlu'r prawf *Ghosh* dwy ran llawn ar gyfer cyfraith trosedd. Ni fyddai'r llys wedi'i rwymo gan y dyfarniad Llys Apêl cynharach chwaith gan mai achos sifil oedd hwnnw a dydy dwy is-adran y Llys Apêl ddim yn rhwymo'i gilydd. Mae'n debygol y byddai'r Goruchaf Lys wedi gwyrdroi'r dyfarniad hwnnw ar ôl apêl bellach ond, yn y cyfamser, byddai'r prawf *Ghosh* dwy ran wedi dod yn gynsail rwymol mewn achosion dwyn cyfraith trosedd unwaith eto.

Yn 2020, gyda *Barton a Booth*, cyrhaeddodd achos troseddol y Llys Apêl o'r diwedd oedd yn cadarnhau mai'r prawf ar gyfer anonestrwydd oedd yr un a nodwyd yn achos *Ivey*. Fel rhan o'r dyfarniad, ystyriodd y Llys Apêl y cwestiwn a oedd achos *Ivey* yn gynsail rwymol neu berswadiol, cyn dod i'r casgliad ei fod yn rhwymol. Hefyd, pwysleisiodd nad oedd yn dilyn dyfarniad *Ivey* yn anfoddog ond ei fod yn hapus i wneud hynny. Mae hyn yn golygu bod y Llys Apêl (Yr Is-adran Trosedd) bellach wedi'i rwymo gan achos *Ivey*. O ran y Goruchaf Lys, mae'r gynsail o achos *Ivey* ac o achos *Barton and Booth* yn dal i fod er perswâd yn unig ac y gallai panel yn y dyfodol ddirymu achos *Ivey*, fel y digwyddodd gydag achos *G and Another* (2003), pan welwyd bod y newid o fyrbwylltra goddrychol Cunningham i fyrbwylltra gwrthrychol Caldwell yn un dros dro.

## Ble mae hyn yn gadael y myfyrwyr?

Mae'r math hwn o ddryswch yn ofnadwy i'r myfyrwyr. O'r blaen, doedd hi ddim yn ymddangos bod gwahaniaeth gan y byrddau arholi a oedd myfyrwyr yn cymhwyso'r prawf *Ghosh* llawn neu a oedden nhw'n dweud, ers achos *Ivey*, mai dim ond rhan wrthrychol prawf *Ghosh* yr oedd angen ei defnyddio.

Gan fod dros 2 flynedd wedi mynd heibio erbyn hyn ers achos *Barton a Booth*, yn y dyfodol, dylai myfyrwyr ddefnyddio'r prawf am anonestrwydd fel y'i nodir yn achos *Ivey*:

**1** Ar ba gam yn union oedd D o ran ei gred neu ei wybodaeth am y ffeithiau?

**2** Yng nghyd-destun (1), a oedd ymddygiad D yn anonest yn ôl safonau pobl weddus gyffredin?

**Mae Steve Pugsley** yn bennaeth y clasuron a'r gwyddorau gwleidyddol yn Ysgol Great Marlow.